

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir o dan Reol Sefydlog 21.7

14 Mawrth 2022

## SL(6)165 – Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (Ymgwymerwyr Dwr a Charthffosiaeth a Thrwyddedeion Cyflenwi Dwr) 2022

### Gweithdrefn: Dim Gweithdrefn

Mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru, mewn perthynas ag ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth Cymru a thrwyddedeion cyflenwi dŵr Cymru, ei bod yn angenrheidiol ac yn fuddiol, er budd diogelwch gwladol ac at ddiben lliniaru effeithiau unrhyw argyfwng sifil, roi [cyfarwyddiadau](#) iddynt o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Mae'r un peth yn berthnasol i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth Lloegr a thrwyddedeion cyflenwi dŵr Lloegr.

Ymhlith pethau eraill, cyfarwyddir ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth a thrwyddedeion cyflenwi dŵr i wneud y canlynol:

- gwneud, parhau i adolygu, a diwygio cynlluniau i sicrhau, yn ystod unrhyw argyfwng sifil neu ddigwyddiad sy'n bygwth diogelwch gwladol, fod swyddogaethau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth yn parhau i gael eu harfer,
- cymryd camau i sicrhau bod ganddynt y gallu, y capasiti a'r cyfleusterau sydd eu hangen i roi'r cynlluniau hynny ar waith,
- nodi ac asesu risgiau i ddarpariaeth swyddogaethau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth, a rhoi mesurau ar waith i osgoi neu i liniaru'r risgiau hynny,
- profi effeithiolrwydd mesurau, polisiau ac arferion diogelwch i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol i reoli risgiau diogelwch,
- hysbysu'r awdurdod priodol (h.y. Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol) am unrhyw argyfwng neu ddigwyddiad diogelwch sy'n effeithio ar swyddogaethau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf y Diwydiant Dŵr 1991

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:** 28 Chwefror 2022

**Yn dod i rym ar:** 01 Mawrth 2022

